## Cyfrinachedd a Diogelu Data

Fel arfer bydd y BBC yn cyhoeddi unrhyw ymateb sefydliadol yn llawn pan fyddwn yn dod i gasgliad. Os ydych yn dymuno i'ch holl ymateb, neu ran ohono, gael ei drin yn gyfrinachol, cwblhewch yr adran cyfrinachedd isod. Efallai y byddwn yn dal i gyfeirio at eich ymateb yn gyffredinol, gan roi sylw dyledus i gyfrinachedd y wybodaeth a gyflwynwyd.

Fel rheol ni fydd y BBC yn cyhoeddi ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb dienw o unrhyw ymatebion o'r fath. Byddwn yn trin eich manylion adnabod yn gyfrinachol os byddwch yn eu datgelu i ni.

## Cyfrinachedd a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Efallai y bydd raid i'r BBC ddatgelu gwybodaeth er mwyn ymateb i gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os ydych wedi gofyn am gyfrinachedd, bydd y BBC yn ceisio gwrthod datgelu, pan fo'n briodol, os derbynnir cais o dan y Ddeddf. Dyna pam ei bod yn bwysig dweud wrthym beth yw eich rhesymau, isod. Fodd bynnag, noder efallai na fydd yna esemptiad cymwys bob amser, a gall unrhyw benderfyniad gan y BBC i beidio â datgelu gwybodaeth gael ei wrthdroi gan y Comisiynydd Gwybodaeth, y Tribiwnlys Gwybodaeth neu'r llysoedd.

Beth ydych eisiau i'r BBC ei gadw'n gyfrinachol? (Ticiwch os gwelwch yn dda)

| | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon i fy ymateb gael ei gyhoeddi yn llawn. | |
| Rwyf yn dymuno i fy ymateb yn ei gyfanrwydd gael ei drin yn gyfrinachol (ticiwch y bocs ar y dde a dweud wrthym beth yw'r rhesymau yn y gofod a ddarperir isod) | |
| Rwyf yn dymuno i ran o fy ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (ticiwch y bocs ar y dde a dweud wrthym pa rannau yn y gofod a ddarperir isod, gan roi eich rhesymau) | |

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Sefydliad | |
| Cyfeiriad | |
| E-bost | |

**Hysbysiad preifatrwydd**

Mae mwy o wybodaeth ar gael ym Mholisi Preifatrwydd a Chwcis y BBC. (Pan fo'r dogfennau hynny a'r hysbysiad yma yn dweud gwahanol bethau, rhoddir y flaenoriaeth i'r hysbysiad yma)

Mae'r BBC yn prosesu eich data yn unol â'r gyfraith diogelu data, yn cynnwys Deddf Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Y BBC yw'r rheolwr data h.y. ni sydd yn penderfynu at ba ddiben y prosesir eich data a'r ffordd y gwneir hynny. Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data yw cyflawni tasg er budd y cyhoedd.

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol gennych chi, ac yn ei phrosesu yn ddiogel at ddibenion cynnal yr ymgynghoriad hwn. Gall hynny gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, y sefydliad yr ydych yn gweithio iddo a'ch rôl.

Fel arfer byddwn yn dileu eich data personol chwe mis ar ôl i ni gyhoeddi ein casgliadau. Ni fyddwn yn ei drosglwyddo i unrhyw drydydd partïon at ddibenion marchnata, er y gallwn ei rannu ag isgontractwyr i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben yr ymgynghoriad.

Mae cyfraith diogelu data yn rhoi hawliau penodol i chi er mwyn rheoli eich data, megis gofyn i ni pa ddata yr ydym yn ei ddal amdanoch, a gofyn i ni stopio prosesu eich data, neu i'w ddileu neu ei gywiro. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut mae'r BBC yn trin eich gwybodaeth bersonol, neu os ydych yn dymuno gwybod mwy am eich hawliau, ewch i Bolisi Preifatrwydd a Chwcis y BBC. Byddwch hefyd yn gallu gweld mwy o wybodaeth am sut mae'r BBC yn prosesu eich gwybodaeth a sut y gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data y BBC. Os ydych yn pryderu am sut mae'r BBC wedi trin eich gwybodaeth bersonol ac nad ydych yn fodlon â'r ateb y mae'r BBC yn ei roi i chi, mae gennych hawl i fynegi eich pryder i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**DATGANIAD**

Rwyf yn cadarnhau bod y wybodaeth yr wyf wedi ei chyflwyno yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Gellir ei gyhoeddi yn llawn ar wefan y BBC, oni nodwyd fel arall, ac rwyf yn awdurdodi'r BBC i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr ymateb hwn er mwyn bodloni ei gofynion cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb ar e-bost, gall y BBC ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodion e-bost.

ENW

DYDDIAD

LLOFNODWYD (os yn gopi caled)